



CYNGOR TREF MACHYNLETH TOWN COUNCIL

Y Plas, Heol Aberystwyth Road, Machynlleth, Powys, SY20 8ER

Telephone : 01654 702 571

E-mail : town-clerk@machynlleth-tc.gov.uk

DISGRIFIAD SWYDD GORUCHWYLIWR CAFFI

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Goruchwyliwr Caffi:

Bydd y Goruchwyliwr Caffi yn sicrhau bod y caffi yn rhedeg yn ddi-dor yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol gan ddarparu'r safonau gwasanaeth uchaf posibl wrth fod yn rhagweithiol wrth wella'r trosiant a'r proffidioldeb.

Cydymffurfio â phob agwedd ar Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (Gwelliant Cyfraith Bwyd Cyffredinol - Rheoliadau Ymadael â'r UE 2019) sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer deddfwriaeth bwyd ac yn creu troseddau mewn perthynas â diogelwch, ansawdd a labelu.

Sicrhau bod yr holl waith papur Bwyd a Hylendid yn gyfredol rhag ofn y cynhelir archwiliad ar fyr rybudd.

Darparu cefnogaeth i staff pan fydd angen.

Paratoi amserlenni/rotas gwaith wythnosol a chael dewis arall addas rhag ofn y bydd aelod arall o staff yn absennol yn sydyn.

Adrodd am unrhyw faterion sy'n codi i'r Rheolwr Cyfleusterau.

Sicrhau bod holl dreuliau'r caffi o fewn y gyllideb a nodi ffyrdd o gynyddu incwm wrth sicrhau bod costau'n cael eu cadw ar lefel resymol i gyflawni elw.

Archebu stoc yn ôl yr angen, gyda'r bwriad o gael y pris gorau posibl rhwng sawl cyflenwr a chymaint â phosibl i chwilio am gyflenwyr lleol ar gyfer dewisiadau amgen ffres.

Datrys unrhyw gwynion gan gwsmeriaid ynghylch ansawdd bwyd a gwasanaeth cwsmeriaid.

Nodi strategaethau i gadw'r sylfaen cwsmeriaid sydd eisoes wedi'i sefydlu a denu un newydd.

Bod ar gael i weithio ar adegau Gwyliau, ar benwythnosau ac ar benwythnosau Gŵyl y Banc.